

Cymraeg yn y Gweithle: Canolfan Deuluol Borth

Mae Canolfan Deuluol Borth yn elusen sy'n cynnig gwasanaethau gofal plant. Er nad yw'r holl wasanaethau sy'n cael eu cynnig yn y Gymraeg, maent yn awyddus i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg lle'n bosib. Mae un aelod o'r gweithlu yn siarad Cymraeg, ac yn anelu i gyflwyno'r iaith i'r plant a'r rhieni, ond roedd angen cefnogaeth i gyfieithu peth o ddeunydd ysgrifenedig y Ganolfan.

Pa wasanaeth/au roedd eich mudiad wedi ei dderbyn gan eich swyddog Datblygu'r Gymraeg mewn Busnes?

Cawsom ni gefnogaeth benodol gyda chyfieithiad am ddim o hysbyseb swydd sydd yn ddefnyddiol nawr, ond sydd hefyd yn ddigon cyffredinol i ni ei ddefnyddio eto yn y dyfodol. Roedden ni hefyd wedi derbyn gwasanaeth cyfieithu am ddim ar gyfer poster a flyer yn hyrwyddo ein gwasanaethau, a rhai brawddegau oedd angen eu cyfieithu ar ein ffurflen gais am swydd.

Beth oedd eich profiad chi o'r wasanaeth?

Roedd y gwasanaeth yn hawdd, heb feirniadaeth ac yn ddefnyddiol. Roedd y Swyddog Datblygu a gysylltwyd ag ef yn brydlon, yn glir ac yn gynnil.

Ydych chi wedi derbyn ymateb ffafriol wrth ddefnyddio'r Gymraeg hyd y gallwch chi yn eich mudiad?



Mae defnyddio'r iaith Gymraeg yn ein hysbysebu i'r cyhoedd yn ogystal ag yn ystod sesiynau wedi arwain at bedwar cam cadarnhaol clir i ni:

- 1) Mae rhieni sydd wedi eu magu gyda'r iaith Gymraeg, ond sydd o gefndir cartref Saesneg, wedi cael eu hannog ac wedi magu hyder er mwyn gallu cychwyn ailgysylltu gyda'r iaith a'i defnyddio adref gyda'u plant.
- 2) Mae defnyddio'r Gymraeg o gwmpas rhieni sydd wedi symud i'r ardal yn cychwyn y drafodaeth am ddwyieithrwydd a'r buddion o ddysgu dwy iaith o oedran cynnar.



- 3) Mae rhieni Cymraeg iaith gyntaf, neu'r rhai sy'n ceisio magu eu plant mewn awyrgylch Cymraeg, yn teimlo fod croeso iddynt gyfrannu, ac i fynychu ein sesiynau.
- 4) Mae plant sydd wedi symud ymlaen i'r Cylch Meithrin yn gyfarwydd â rhai o'r geiriau a chaneuon sy'n cael eu defnyddio yna o ganlyniad i glywed y rhain gyda ni. Maen nhw hefyd yn dychwelyd i ni yn y sesiynau gwyliau yn fwy hapus i gyfathrebu gan ddefnyddio'r Gymraeg.